







ANNUAL REPORT 2019

ADRODDIAD BLYNYDDOL


Dewrder Courage
Hiwmor Humour
Cywirdeb Integrity
Rhagoriaeth Excellence
Teulu Family
Llwyddiant Success

UNDEB RYGBI CYMRU CYFYNGEDIG

ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 30 MEHEFIN 2019

Neges y Llywydd 4
Datganiad y Cadeirydd 6
Crynodeb Prif Weithredwr y Grŵp 8
Adroddiad Strategol 14
Y Flwyddyn o safbwynt Rygbi Cymunedol 24
Y Flwyddyn o safbwynt Rygbi Proffesiynol 30
Adroddiad y Cyfarwyddwyr 36
Datganiad Cyfunol o Incwm 41
Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr 42
Mantolenni Cyfunol a Mantolenni'r Cwmni 43
Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Ecwiti 44
Datganiad y Cwmni o Newidiadau mewn Ecwiti 45
Datganiad Cyfunol o Lif Arian 46
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 47
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 76
Llywodraethu Undeb Rygbi Cymru 80
Swyddfa Gofrestredig 85
Y Bwrdd Cyfarwyddwyr 86
Cyngor Undeb Rygbi Cymru 92
Y Bwrdd Gweithredol 98
Teyrngedau 102
Partneriaid Masnachol 106



Dennis Gethin OBE

Neges y Llywydd

Mae Llywydd Undeb Rygbi Cymru yn cael cyfleoedd breintiedig iddo i gysylltiad â phob agwedd ar rygbi yng Nghymru, yn enwedig y gamp ar lefel clybiau ac ar lefel gymunedol. Yn ystod y 12 mlynedd diwethaf roedd yn fwriad gennyf gefnogi rygbi ar lawr gwlad oherwydd yno, yn fy marn i, y mae corff ac enaid ein camp fendigedig.

Yn ôl pob sôn, y lleoedd gorau i fynd iddynt os ydych am gael darlun sydyn o fywyd yw gorsaf drenau neu faes awyr. I'r sawl sy'n awyddus i ddysgu am rygbi yng Nghymru, ei helyntion, ei eiliadau o wychder a llawenydd mawr a'i eiliadau o dorcalon, mae cyfnod hir yn esgidiau Llywydd Undeb Rygbi Cymru yn ffordd unigryw o feithrin dealltwriaeth o'r gamp.

Yn ystod fy nghyfnod fel Llywydd, mae hefyd wedi bod yn fraint ac yn bleser cyflwyno capiau rhyngwladol i unigolion sydd wedi gwisgo'r crys coch am y tro cyntaf a'r sawl sydd wedi cyrraedd carreg filltir arbennig ac wedi ennill 50 neu hyd yn oed 100 o gapiau.

Mae'r rhain yn achlysuron arbennig iawn i'r chwaraewyr a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae cyflwyno tlysau i'r sawl sy'n ymwneud â'r gamp ar lawr gwlad yn weithred yr un mor werthfawr i fi ac i Undeb Rygbi Cymru.

Rwyf o'r farn ei bod yn bwysig i'ch Llywydd ymrwymo i fod yn bresennol a chynnig cefnogaeth yn bersonol pryd bynnag y bo modd. Yn yr un modd, rwyf o'r farn bod Gwobr Cyflawniad Oes Llywydd Undeb Rygbi Cymru yn bwysig – gwobr sy'n cydnabod gwasanaeth eithriadol gwirfoddolwyr. Hyd y gwn i, mae rygbi yng Nghymru yn unigryw o ran y modd y mae'n rhoi'r gydnabyddiaeth sy'n ddyledus i'r grŵp hwn o unigolion ymroddgar sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni, ac rwy'n falch dros ben bod y drefn wobrwyo hon wedi dechrau yn ystod fy nghyfnod i yn y swydd.

Rwyf wedi cael y fraint o fynychu ciniawau clybiau rygbi ar hyd a lled Cymru a'r fraint o siarad â phobl sy'n greiddiol i'n camp genedlaethol, mewn gemau cymunedol o amgylch y wlad.

Wrth gwrs, rwyf hefyd wedi bod yn ddigon ffodus i deithio o amgylch y byd gyda Chymru i gyflawni dyletswyddau swyddogol, ac wrth wneud hynny rwyf wedi cael cyfle i wylio reslo Swmo yn Japan ac ymweld â'r Tŷ Gwyn yn yr Unol Daleithiau ac, yn ôl pob tebyg, wedi cael fy anrhydeddu â mwy o Hakas a Pōwhiris na'm holl ragflaenwyr gyda'i gilydd. Mae pob un ohonynt wedi creu atgof arbennig ac yn fy atgoffa o allu rygbi i uno pobl. Waeth pa wlad yr ydym yn hanu ohoni, rydym i gyd yn siarad yr un iaith ym maes chwaraeon.

Rwyf hefyd yn falch tu hwnt bod fy nghyfnod i gydag Undeb Rygbi Cymru yn cyd-fynd â chyfnod yr hyfforddwr mwyaf llwyddiannus sydd wedi bod yng ngofal ein tîm cenedlaethol erioed. Yn fy nhymor cyntaf fel Llywydd, llwyddodd Cymru i gipio'r Gamp Lawn ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad dan arweiniad Warren Gatland, gan wneud hynny am y trydydd tro yn 2019 gyda Warren wrth y llyw – mae'n llwyddiant aruthrol ac yn orchest na chaiff ei chyflawni fyth eto efallai.

Dechreuodd Warren a fi gyda'n gilydd a byddwn yn rhoi'r gorau iddi gyda'n gilydd ar ôl Cwpan Rygbi'r Byd 2019 yn Japan. Fy unig obaith yw y bydd fy ymdrechion personol i er mwyn hybu rygbi yng Nghymru yn ystod y 12 mlynedd diwethaf yn esgor ar o leiaf ychydig o'r effaith a'r dylanwad cadarnhaol y mae ymdrechion Warren wedi'u cael. Hoffwn ei ganmol ef a'i dîm o hyfforddwyr arbenigol am eu cyfraniad i rygbi yng Nghymru.

"Rydym wedi cael ein bendithio â chriw dawnus o unigolion sydd wedi cydweithio â'i gilydd i feithrin etheg gwaith ardderchog sydd wedi gwireddu potensial ein chwaraewyr ac wedi creu carfan genedlaethol a all gystadlu ag unrhyw dîm yn y byd."

Rhaid i fi gyfeirio'n arbennig at Rob Howley, Robin McBryde a Shaun Edwards yn y cyd-destun hwn. Yn ogystal, byddwn ar fai pe na bawn yn rhoi teyrnged i Reolwr y Tîm, Alan Phillips, ac aelodau eraill y tîm rheoli a fydd yn parhau yn eu swyddi ac a fydd, rwy'n gwybod, yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiad gwerthfawr â'r criw newydd.

Fel sy'n wir am bob camp arall, gall chwarae rygbi arwain at anaf. Mae ein dull o reoli hynny a'n dull o ddiogelu pob un o'n chwaraewyr yn hollbwysig. Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Rygbi Cymru, rwy'n dod i gysylltiad yn rheolaidd â chriw bach ond eithriadol o bwysig o bobl sy'n perthyn i'r gymuned rygbi yng Nghymru, sef y sawl sydd wedi dioddef anafiadau a newidiodd eu bywyd. Mae'n agwedd bwysig ar rôl Llywydd Undeb Rygbi Cymru, sydd wedi rhoi llawer iawn o foddhad i fi. Mae wedi bod yn fraint cael fy nghroesawu i'w cartrefi a'u teuluoedd a chael cydweithio â grŵp bach ond ymroddgar o ymddiriedolwyr gwirfoddol i ddarparu help a chefnogaeth pryd bynnag y mae eu hangen. Rydym yn ymrwymo i'r criw unigryw hwn o ddynion a menywod gydol eu hoes, a hoffwn ddiolch i bob un ohonynt. Rhaid hefyd i fi roi teyrnged i'n Noddwr, Dug Caergrawnt, sy'n gwneud gwaith aruthrol y tu ôl i'r llenni i godi arian i'r achos hwn. Mae ei ymdrechion ef yn unig wedi codi tua £500,000 sydd wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i dalu am gerbydau arbennig, cadeiriau olwyn â modur, addasiadau i gartrefi a llawer mwy er mwyn ei gwneud yn bosibl i bobl fyw'n annibynnol.

Gyda thristwch mawr hoffwn roi teyrnged hefyd i Sam Simon a oedd yn gyn-aelod o un o bwyllgorau Undeb Rygbi Cymru ac yn un o hoelion wyth Pontypridd; Billy Mainwaring, Ken Braddock, Garfield Owen a Hayden Mainwaring a fu'n chwarae dros Gymru; a Frances Margerison a oedd yn flaenllaw ym maes rygbi menywod, a fu farw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n gwybod bod adran hwy wedi'i neilltuo i'w cyflawniadau nhw yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, felly digon yma yw dweud bod y gweinyddwyr, y chwaraewyr, yr hyfforddwyr a'r swyddogion sy'n eu dilyn yn gwerthfawrogi'n fawr eu holl ymdrechion er budd rygbi yng Nghymru.

Wrth i mi ddod â'm neges i ben am y tro olaf, rwy'n gwneud hynny â chalon drom ond â llwyth o atgofion melys a grëwyd ar hyd pob un o'r llwybrau rwyf wedi'u troedio wrth ymwneud â rygbi yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn dyst i'r buddugoliaethau gorau erioed i lawer ac wedi cael y fraint o gyflwyno tlysau, medalau a chapiau ar achlysuron a oedd yn diffinio gyrfaoedd. Rwyf wedi gweld y sawl a drechwyd mewn gemau'n ymateb yn raslon i hynny, ac wedi gweld y cyfeillgarwch sy'n dod â gelynion ar y cae ynghyd mewn clybiau rygbi ledled Cymru a'r byd pan fydd y gêm drosodd.

Rwyf wedi cael amser wrth fy modd ac rwy'n rhyfeddu wrth feddwl am yr holl bobl rwyf wedi cyfarfod â nhw. Fodd bynnag, rwy'n gwybod bod dyfodol y gamp yn nwylo diogel grŵp o unigolion y mae rygbi yng Nghymru yn agos iawn at eu calon. Ac yma hoffwn fanteisio ar y cyfle breintiedig sydd gennyf fel Llywydd i gymeradwyo Wayne Pivac, olynydd Warren, a fydd yn sicr yn cael yr un gefnogaeth ag a roddwyd i'w ragflaenydd gan genedl ddisgwylgar yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae hefyd yn haeddu amynedd y sawl sy'n gwylio rygbi, er mwyn gallu ein harwain i gyfnod newydd o lwyddiant.

Yr eiddoch yn ddiolchgar ac o an chwaraeon

Dennis Gethin OBE
Llywydd



Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig

Datganiad y Cad

O ganlyniad i'r newidiadau mwyaf sylweddol i drefniadau llywodraethu Undeb Rygbi Cymru ers i'r gamp droi'n broffesiynol yn 1995, mae gennym bellach Fwrdd llai o faint a mwy hyblyg a deinamig ynghyd â Chyngor y mae ei gylch gorchwyl a'i arbenigedd penodol yn ymwneud â diogelu dyfodol ein camp gymunedol.

Mae gennym ragor o waith i'w gyflawni yn y maes hwnnw ac, wrth i ni chwilio am aelodau newydd i'r Cyngor pan fydd cyfnodau aelodau unigol yn eu swyddi'n dod i ben yn naturiol, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gynyddu'r amrywiaeth o gefndiroedd a'r amrywiaeth o sgiliau a gaiff eu cynrychioli, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn dal gafael ar y 130 mlynedd o dreftadaeth a hanes sydd wedi creu'r hyn ydym ni yn 2019.

Ond yn awr mae strwythur newydd ac addas i'w ddiben wedi'i gyflwyno sy'n rhoi i'r Bwrdd Rygbi Proffesiynol, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd, y rhyddid a'r dylanwad i ddarganfod atebion i'r problemau a'r heriau cyfarwydd sy'n effeithio ar y gamp broffesiynol mewn tirwedd sy'n newid.

Mae ein rhaglen i foderneiddio trefniadau llywodraethu wedi arwain hefyd at newid yr un mor bwysig a sylweddol i'r modd y caiff y gamp gymunedol ei rheoli. Erbyn hyn, caiff y gamp gymunedol ei goruchwylio gan y Bwrdd Rygbi Cymunedol sydd hefyd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd.

Er bod y Bwrdd Rygbi Proffesiynol yn awr yn gallu elwa o'i ymdrechion ac felly'n gallu gweithredu'n ddeinamig wrth iddo gynrychioli Cymru ym maes rygbi proffesiynol ledled y byd, mae cyllid i'n camp gymunedol wedi'i neilltuo.

Bydd y newidiadau hyn yn cymryd amser i ymsefydlu ac mae'n bosibl iawn y bydd yna broblemau cychwynnol ar hyd y daith, ond mae'r ffordd newydd hon o feddwl yn dwyn ffrwyth yn barod gan fod gemau Cynghrair Genedlaethol Specsavers ac Uwch Gynghrair Grŵp Indigo wedi'u cyhoeddi ym mis Gorffennaf eleni a bod problemau'n ymwneud â disgyn a chodi i gynghreiriau eraill wedi'u datrys – mae pawb yn gwybod ble maent yn sefyll.



Syr Tasker Watkins VC oedd ein Llywydd pan drodd ein camp yn broffesiynol yn 1995, ac mae'n briodol bod un arall o weision mwyaf ffyddlon rygbi yng Nghymru wedi bod yn goruchwylio'r cyfnod hanesyddol diweddaraf hwn.

Pan fydd tymor Dennis Gethin OBE yn ei swydd yn dod i ben yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ddiwedd mis Tachwedd, bydd wedi bod yn Llywydd am 12 mlynedd, sef blwyddyn yn hwy na Syr Tasker. Mae ei gyfnod yn y swydd yn cyd-fynd â chyfnod Warren Gatland fel prif hyfforddwr, a dylai cyfraniad Dennis dros y degawd diwethaf a chyn hynny gael ei gydnabod lawn cymaint â chyfraniad Warren.

Byddwn yn gweld eisiau Dennis yn fawr. Mae ei Lywyddiaeth wedi bod yn unigryw ac mae wedi cynrychioli rygbi Cymru o amgylch y byd gydag urddas, carisma a hynawsedd heb eu hail – heb os, mae wedi gosod safonau uchel iawn ar gyfer ei olynydd.

Ac o sôn am Warren Gatland, allai Warren ddim bod wedi cael diweddglo gwell i'w dymor olaf fel prif hyfforddwr Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Roedd cipio'r Gamp Lawn am y trydydd tro wrth iddo nesáu at ddiwedd ei gyfnod wrth y llyw gyda'r tîm cenedlaethol yn llwyddiant ysgubol.

Rydym yn gwybod ei fod ef a'i garfan bob amser yn awchu am ragor o lwyddiant, ac oherwydd mai Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan fydd ei ymgyrch olaf gyda ni mae pawb wedi bod yn gobeithio am ddiweddglo epig i'w gyfnod gyda Chymru wrth i'r tîm ddringo i'r ail safle yn rhestr detholion y byd World Rugby cyn gêm agoriadol y twrnamaint. Mae'n anodd troi ein golygon at y cyfnod a fydd yn dilyn holl gyffro Cwpan y Byd, ond arwydd o'r pwys y mae ein Bwrdd a'n Tîm Gweithredol yn ei roi ar feddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol yw'r ffaith ein bod wedi penodi olynydd Warren, sef Wayne Pivac, ym mis Gorffennaf 2019.

eirydd




Gareth Davies

Bydd Wayne yn awyddus i dorri ei gwys ei hun, ac rwy'n gwybod y bydd cefnogaeth y genedl gyfan iddo yr un fath â'r gefnogaeth a gafodd Warren yn 2008. Bydd dilyn Warren yn anodd ond yn her y bydd Wayne yn ei mwynhau, ac rydym yn hyderus ein bod wedi rhoi iddo'r amser paratoi a'r adnoddau - na welwyd eu tebyg yn y gamp ar lefel ryngwladol - i'w alluogi i osod y sylfeini ar gyfer creu ei lwyddiant ei hun yn hanes rygbi yng Nghymru.

"Yn olaf, dathlodd Stadiwm Principality ei ben-blwydd yn 20 oed ym mis Mehefin, a gwnaethom gyhoeddi adroddiad annibynnol a oedd yn amcangyfrif bod effaith economaidd gadarnhaol y stadiwm ar economi Cymru yn oddeutu £2.75 biliwn yn ystod y cyfnod dan sylw."

Pan sicrhaodd tîm Cymru ei fuddugoliaeth gyntaf erioed yn erbyn De Affrica yn 1999, roeddem i gyd yn gwybod bod dyfodol arbennig iawn o'n blaen ar ein maes cenedlaethol newydd sbon a oedd eisoes yn eiconig.

Mae ein lleoliad unigryw yng nghanol y ddinas yn golygu bod arwyneb y tir lle saif y stadiwm yn llai na'r rhan fwyaf o stadia tebyg sydd o amgylch y byd, felly mae'r gwylwyr bob amser yn agos i'r cae ac yn gallu gweld cymaint ag sy'n bosibl o'r hyn sy'n digwydd arno, ble bynnag y maent yn eistedd. At hynny, mae gennym do sy'n agor ac yn cau'n gyfan gwbl ac wyneb chwarae y gellir ei addasu, ac mae'r hyblygrwydd hwnnw wedi denu hyrwyddwyr a pherchnogion digwyddiadau o bob sector yn y diwydiant cerddoriaeth a'r diwydiant chwaraeon rhyngwladol.



Rydym yn lleoliad eiconig a hyblyg tu hwnt, a gallwn ymateb yn hwylus i holl ffrwyth dychymyg ein staff ymroddgar a'r sawl sy'n rheoli pob math o berfformiadau a digwyddiadau.

Yr eiddoch yn gywir o ran rygbi



Gareth Davies
Cadeirydd
Undeb Rygbi Cymru Cyfyngedig



Crynodeb Prif Weithredwr y Grŵp

Mae wedi bod yn flwyddyn o heriau a boddhad i rygbi yng Nghymru – blwyddyn a oedd yn cynnwys Camp Lawn dderbyniol i dîm y dynion ym mis Mawrth ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad Guinness.

Mae'r gamp ar lefel fyd-eang yn newid yn barhaus wrth i arferion cymdeithas ddatblygu ac rydym bob amser yn ceisio addasu i farchnad sy'n mynd yn fwyfwy cystadleuol. Mae timau proffesiynol yn cystadlu'n fwy ffyrnig nag erioed am nawdd a buddsoddiad gan ddarlledwyr, ac ar lefel gymunedol rydym yn cystadlu am amser hamdden pobl sy'n gallu dewis o blith mwy o weithgareddau nag erioed o'r blaen.

O safbwynt busnes, roedd yn flwyddyn a aeth rhagddi'n ôl y disgwyl i raddau helaeth. Roedd ein perfformiad gwell na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2018 o gymorth, oherwydd gwnaethom golled fwriadol o £4.3 miliwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2019. Gwnaethom fuddsoddi £6.5 miliwn yn fwy yn y gamp broffesiynol a chyflwyno trefn "neilltuo cyllid" ar gyfer y gamp gymunedol a gafodd fuddsoddiad o £11.8 miliwn i gyd.


Martyn Phillips

Yn y gorffennol roedd y gamp broffesiynol yn elwa o incwm contractau ac incwm sicr, ac roedd y gamp gymunedol yn cael pa gyllid bynnag oedd yn weddill ar ôl cyflawni rhwymedigaethau contractau. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2019 gwnaethom gytuno ar ddull newydd o weithredu, sy'n golygu bod y gamp gymunedol yn sicr o gael ei buddsoddiad blynyddol hi a bod y gamp broffesiynol i bob pwrpas yn gorfod ymdopi â manteision ac anfanteision unrhyw amrywiad mewn buddsoddiad blynyddol. Fel undeb o glybiau ymddengys fod hynny'n hollol briodol, ac rydym yn falch o fod wedi cael sêl bendith ar y dull newydd ac arloesol hwn o ariannu'r gamp yng Nghymru.

Fel y nodwyd uchod gwnaethom gynyddu ein buddsoddiad yn y gamp broffesiynol oherwydd bod ein model ar gyfer llwyddiant yn y Tîm Cenedlaethol yn ddibynnol iawn ar sicrhau bod pedwar tîm proffesiynol yn cymryd rhan yn y cystadlaethau perthnasol i glybiau.

Roedd yn flwyddyn brysur o ran llywodraethu, a gwelwyd y gamp yng Nghymru islaw lefel y Bwrdd yn elwa o arweinyddiaeth glir a phenodol gan y Bwrdd Rygbi Proffesiynol a'r Bwrdd Rygbi Cymunedol.

Mae gan yr is-fyrddau hyn islaw Bwrdd URC yr awdurdod, yr adnoddau a'r gallu o ddydd i ddydd i arwain yr agweddau ar ein camp sy'n berthnasol iddyn nhw, gyda mwy o eglurder ac ymdeimlad o bwrpas. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn ond mae'r arwyddion cynnar yn galonogol. Mae'n bosibl bod yna feini tramgwydd i ddod wrth i ni addasu i fodel newydd, ond rydym yn ffyddiog bod y newidiadau pwysig hyn wedi'u cyflwyno ar yr adeg gywir er mwyn i'r gamp gyfan yng Nghymru gael budd cynaliadwy ohonynt yn y dyfodol.

RYGBI RHYNGWLADOL

Y dynion

Ar lefel ryngwladol mae tîm y dynion wedi cael blwyddyn well nag erioed, ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd y tîm yn parhau'n ddiguro yn dilyn 14 gêm. Ers hynny rydym wedi cyrraedd y brig am y tro cyntaf erioed yn rhestr World Rugby o ddetholion; ni yw pencampwyr presennol Pencampwriaeth y Chwe Gwlad Guinness ar ôl cyflawni'r Gamp Lawn; a byddwn yn mynd i Gwpan Rygbi'r Byd yn Japan yn llawn hyder. Roedd parhau'n ddiguro erbyn diwedd cyfres yr hydref, a oedd yn cynnwys buddugoliaethau yn erbyn Awstralia a De Affrica, yn gam calonogol ymlaen o safbwynt meithrin hyder yn ein gallu i guro gwledydd Hemisffer y De yn rheolaidd.

Roedd ennill Pencampwriaeth y Chwe Gwlad Guinness â Champ Lawn yn deyrnged gwbl briodol i Warren Gatland, Rob Howley, Shaun Edwards, Robin McBryde a Neil Jenkins, ac roedd y cyfan yn y fantol ar ddechrau'r gêm olaf yn Stadiwm Principality yn dilyn tair buddugoliaeth oddi cartref. Bydd y fuddugoliaeth yn erbyn Iwerddon yn aros yn y cof am amser hir; roedd yn fuddugoliaeth swmpus yn y glaw ac roedd seremoni cyflwyno'r tlws wedyn yn brofiad eithaf swreal.

"Mae ein chwaraewyr wedi bod yn llysgenhadon heb eu hail i'n camp ledled y byd, ac rwy'n gwybod y byddant yn teithio i Japan gyda'n dymuniadau gorau a'n ffydd ni ynddynt."

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Warren, Rob, Shaun a Robin, yn enwedig, a fydd yn gadael eu swyddi ar ôl Cwpan Rygbi'r Byd. Hoffwn ddiolch hefyd i bob aelod o'r tîm am eu teyrngarwch, eu hymrwymiad a'u harweinyddiaeth wrth alluogi Cymru i fod mor flaenllaw ar lefel y gamp yn fyd-eang.



Y menywod

Mae gennym strategaeth benodol a manwl ar waith i atgyfnerthu a hybu twf ym maes rygbi menywod, sy'n canolbwyntio'n benodol ar y gamp greiddiol i dimau 15 bob ochr ond sydd hefyd yn canolbwyntio o'r newydd ar y gamp i dimau 7 bob ochr wrth gamu i'r flwyddyn nesaf a thu hwnt.

Roedd ein tîm cenedlaethol, dan arweiniad yr hyfforddwr cymwys Rowland Phillips, yn gystadleuol unwaith eto yn ystod ymgyrch Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad. Roedd perfformiad y chwaraewyr yn gwbl ysbrydoledig yng ngêm olaf y twrnamaint yn erbyn Iwerddon, ar ôl dechrau'r tymor ar nodyn uchel yn dilyn buddugoliaethau yn erbyn De Affrica a Hong Kong ym Mharc yr Arfau yn ystod yr hydref.

Mae Rowland, ei dîm hyfforddi a'i chwaraewyr yn haeddu pob clod am eu holl waith caled drwy gydol y flwyddyn, ac rwy'n gwybod eu bod yn disgwyl gwneud mwy fyth o gynnydd y tymor nesaf.

Rygbi proffesiynol

Roedd blwyddyn y gamp broffesiynol yng Nghymru yn un o newid mawr, fel yr oedd hefyd mewn gwledydd eraill ar lwyfan y gamp yn fyd-eang. Rydym mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen wrth i'r gamp broffesiynol gyrraedd trobwynt yn ei datblygiad.

Mae rygbi'n datblygu yn gyflym ac mae partneriaid a buddsoddwyr trydydd parti wrthi'n ddiwyd yn archwilio'r opsiynau strategol ar gyfer y gamp broffesiynol.

"Mae rygbi yn gamp sydd wedi ennill ei phlwyf yn y byd ond hefyd yn gamp a allai dyfu'n sylweddol a chyrraedd tipyn yn rhagor o bobl."

Mae'r potensial i newid yn debyg iawn i'r hyn ydoedd pan drodd y gamp yn broffesiynol tua 20 mlynedd yn ôl. Rydym yn wynebu ystod o opsiynau, a bydd yr hyn a ddewiswn yn pennu dyfodol y gamp yng Nghymru.

Rydym yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol â'n partneriaid ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, World Rugby a gwledydd SANZAAR. Mae'n hollbwysig ein bod yn cydweithredu'n effeithiol â'n gilydd er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer rygbi.

Yn nes adref rydym wedi symud i Gytundeb Rygbi Proffesiynol newydd gyda'n pedwar rhanbarth, sy'n disodli'r hen Gytundeb Gwasanaethau Rygbi yr oedd disgwyl iddo ddod i ben ym mis Mehefin 2020.

Gwnaethom benderfynu gwneud y newid hwn yn gynharach na'r disgwyl er mwyn hwyluso camp broffesiynol sy'n fwy cydlynus, a fydd o fantais i ni i gyd wrth i ni bwyso a mesur yr amryw opsiynau strategol sydd ar gael.

Mae'r Bwrdd Rygbi Proffesiynol newydd yn rheoli'r gamp broffesiynol yng Nghymru gan adrodd i Fwrdd URC. Rydym yn genedl fach, ac mae ein gallu i weithredu'n gydlynus a rhannu ein syniadau a'n hadnoddau yn hanfodol i sicrhau ein llwyddiant yn y dyfodol. Mae gennym nodau clir ar y cae ac oddi arno.

Ein huchelgais ar y cae yw gwarchod ac adeiladu pedwar tîm proffesiynol llwyddiannus a chynaliadwy. Ein nod yw gweithredu mewn modd "Cymreig" gan rannu pan fo hynny'n gwneud synnwyr ond gan warchod hunaniaeth ein timau a theyrngarwch pobl iddynt.

“Ein nod pennaf oddi ar y cae yw sicrhau sefydlogrwydd ariannol a, thrwy gydweithio â’n gilydd, sicrhau cynifer o gyfleoedd masnachol ag sy’n bosibl.”



Mae’r Bwrdd Rygbi Proffesiynol yn llywodraethu ein holl fuddiannau masnachol o bwys. Os gall y Bwrdd hwnnw wneud yn fawr o’r asedau dan sylw, bydd y gamp broffesiynol ar ei hennill. Ond os na wnawn ni hynny, y gamp broffesiynol fydd yn gorfod ymdopi â’r risg. Mae gennym bob rheswm i gydweithio’n effeithiol â’n gilydd er budd pawb.

Rygbi yn ein clybiau

Mae’r Bwrdd Rygbi Cymunedol newydd wedi’i sefydlu, fell rydym yn canolbwyntio o’r newydd ar y gamp yn ein clybiau a’n cymunedau.

Roedd newid yn amlwg hefyd ar lefel yr Uwch-gynghrair wrth i ni symud o 16 i 12 o dimau, gyda Merthyr yn fuddugol ac yn cyrraedd brig y gynghrair am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae’r gystadleuaeth, sydd ar ei newydd wedd ar gyfer tymor 19/20, wedi’i threfnu a pharheir i ddarlledu’r gemau ar BBC/S4C, sy’n sianelau nad oes yn rhaid tanysgrifio iddynt. Mae gan yr Uwch-gynghrair brif noddwr newydd hefyd, sef Grŵp Indigo, ynghyd â rhestr o gemau wythnosol. Mae timau’r Uwch-gynghrair yn cynnwys rhai o frandiau mwyaf cyfarwydd y byd rygbi ac mae’n gystadleuaeth lle gall pob un o’r timau drechu ei gilydd pan fônt ar eu gorau.



Helpodd y digwyddiad ‘Ffordd i Principality’ yn Stadiwm Principality ym mis Ebrill a mis Mai i arddangos yr amrywiaeth amgen a chynhwysol o weithgarwch y gall rygbi yng Nghymru ei gynnig. Cafodd y digwyddiad ei gynnal am yr ail flwyddyn, a gwnaethom lwyddo unwaith eto i ehangu apêl rygbi gyda thimau a oedd yn cynrychioli amryw ffurfiau ar y gamp. Mae prif ddigwyddiad y gamp gymunedol yn dathlu cyfranogiad mewn pob math o rygbi, ac ynddo mae dros 100 o dimau clybiau, timau ysgolion a thimau cynrychioliadol yn cymryd rhan mewn gemau terfynol, gwyliau a gemau unswydd. Eleni roedd y digwyddiad yn cynnwys diwrnod a neilltuwyd ar gyfer rygbi cynhwysiant, pan welwyd chwaraewyr rygbi cerdded, chwaraewyr gallu cymysg a chwaraewyr hoyw i gyd yn chwarae rygbi, ynghyd â phlant o Ysgol Gynradd Glan-yr-afon a fu’n cymryd rhan mewn rhaglen gymunedol a gyflwynwyd gan ein prentisiaid datblygu rygbi.

Llongyfarchiadau i’r timau buddugol ym mhob un o’n cystadlaethau – cystadleuaeth y gynghrair genedlaethol a chystadlaethau’r cwpan, y plât a’r bowlen.

Erbyn hyn caiff y gamp ei chwarae'n rheolaidd ar draws ystod o fformatau. Roedd partneriaeth yr Urdd ac URC yn cynnwys saith diwrnod o gemau i dimau 7 bob ochr ac mae cynllun i brentisiaid yn y gogledd, rygbi traeth a rygbi ysgolion cynradd i gyd wedi cyfrannu at gadw diddordeb y genedl mewn rygbi drwy gydol y flwyddyn.

Mae rygbi menywod a merched wedi parhau i dyfu'n gryf gan fodloni uchelgais strategol allweddol y Grŵp, fel y nodwyd uchod.

Mae swyddogion penodedig sy'n hybu rygbi i fenywod a merched wedi ymuno â'n rhwydwaith o unigolion sy'n gwella cyfranogiad ledled Cymru, a chynyddodd nifer y merched sy'n chwarae rhyw fath o rygbi'n rheolaidd mewn ysgolion uwchradd, colegau a phrifysgolion sydd â swyddog hybu rygbi i dros 18,000 yn ystod y flwyddyn. Cafwyd ymgyrch hefyd i gynyddu nifer y menywod ymhlith hyfforddwyr a dyfarnwyr ledled Cymru.

Curodd Tîm Datblygol Menywod Cymru Dîm Datblygu Dan 18 Lloegr o 26-20 yn Stadiwm Principality ym mis Ebrill. Roedd yn gêm sy'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol, oherwydd caiff llwybr y menywod ei ategu erbyn hyn gan raglen ranbarthol ar ei newydd wedd, sydd ar waith yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst.

Rydym yn awr yn gallu cynnig darpariaeth reolaidd ar draws amryw fformatau drwy gydol y flwyddyn, sy'n fwy addas ar gyfer pob aelod o'r gymuned rygbi yng



Nghymru, a bydd ein hawydd i sicrhau bod rygbi mor gynhwysol ag sy'n bosibl yn golygu y bydd y gamp yn dal i gael ei hehangu mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i'n partneriaid sy'n ein cefnogi yn yr agwedd hon ar ein gweithgarwch, yn enwedig StreetGames, yr Urdd a Chyngor Caerdydd

RHAGLENNI PERFFORMIAD UWCH

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar raglenni perfformiad uwch. Mae ein strategaeth yn eang i raddau helaeth ond mae ganddi hefyd dri maes ffocws cyfredol,



sef ein rhaglen datblygu hyfforddwyr a sicrhau olyniaeth, ein rhaglen ar gyfer alltudion a'n rhaglen o ran llwybrau.

Bwriad a ffocws pob un ohonynt yw datblygu chwaraewyr a hyfforddwyr o Gymru fel eu bod yn cyrraedd lefelau proffesiynol y gamp. Yr hyn sydd wrth wraidd ein strategaeth ar gyfer y gamp broffesiynol yw ymrwymiad i ddarparu timau sy'n cynnwys llawer o chwaraewyr o Gymru a gaiff eu hyfforddi gan hyfforddwyr o Gymru. Weithiau bydd y ffocws ar ddatblygu yng Nghymru, a bryd arall ar ddatblygu y tu allan i Gymru, os yw'r rhaglenni sydd wedi'u teilwra yn argymell y dylid gwneud hynny.

Mae'r rhain hefyd yn rhaglenni hirdymor sy'n gofyn am lawer o fuddsoddiad, lle byddwn yn disgwyl gweld ffrwyth ein llafur ymhen amser.

DIGWYDDIADAU YN STADIWM PRINCIPALITY

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein busnes digwyddiadau, sy'n gynyddol bwysig i'n lles ariannol. Unwaith eto llwyddodd y cyngherddau a'r digwyddiadau Monster Jam a Speedway sy'n dychwelyd i'r Stadiwm dro ar ôl tro i ddenu torfeydd mawr, ac rydym yn falch o allu parhau i gynnal digwyddiadau o'r fath.

Oherwydd gemau Cyfres yr Haf Under Armour ym mis Awst 2019, er mwyn paratoi ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd, roedd ein tymor cyngherddau ychydig yn fyrrach nag arfer ond rhaid canmol ein tîm digwyddiadau am sicrhau mai yn Stadiwm Principality y cafodd y gêm rhwng Manchester United ac AC Milan yng Nghwpan y Pencampwyr Rhyngwladol ei chynnal er mwyn gwneud yn fawr o'r ffaith bod y cae ar gael yn ystod misoedd yr haf. At hynny, roeddem yn falch o gyhoeddi y byddwn yn cynnal Gemau'r Byd Nitro Cymru ym mis Mai 2020. Hwn fydd y tro cyntaf i'r digwyddiad a drefnir gan Nitro Circus gael ei gynnal y tu allan i'r Unol Daleithiau.

Gwnaethom gyhoeddi hefyd y byddwn yn agor gwesty moethus newydd, sef Gwesty a Sba Porth y Gorllewin, ar Heol y Porth erbyn dechrau 2021. Bydd y fenter newydd hon ar gyfer URC yn ategu ein busnes digwyddiadau ac yn darparu ffynhonnell incwm hirdymor i ni.

RHAGOLYGON AR GYFER Y FLWYDDYN SYDD I DDOD

Bydd y flwyddyn sydd i ddod yn llawn cyffro ar gyfer URC ac rydym yn edrych ymlaen at Gwpan Rygbi'r Byd yn Japan.



Bydd y gamp ar lefel ryngwladol ac ar lefel broffesiynol yn cael ei thrawsnewid, yn ôl pob tebyg, ar gyfer dynion a menywod. Hoffem groesawu Wayne Pivac a'i dîm hyfforddi a fydd, rwy'n gwybod, yn adeiladu ar ein llwyddiant yn ddiweddar.

Ar lefel y clybiau, rydym wedi ailwampio Uwch-gynghrair Grŵp Indigo ac mae'r gamp gymunedol yn elwa o gael mwy o sylw gan y Bwrdd Rygbi Cymunedol. At hynny, byddwn yn parhau i arloesi gyda fformatau'r gamp, ehangu ein darpariaeth a sicrhau bod y gamp yn fwy cynhwysol fyth. Byddwn yn gwneud hynny gydag ystod o bartneriaid gwerthfawr a dibynadwy.

Mae llawer yn newid ym maes rygbi ac rydym mewn sefyllfa dda i arwain y newid hwnnw.

Yn olaf hoffwn ddiolch i bawb sy'n ymwneud â rygbi yng Nghymru, o'r Bwrdd a'r Cyngor, y Tîm Gweithredol a'r tîm yng Ngrŵp URC i'n holl wirfoddolwyr gwerthfawr na fyddai gennym gamp o gwbl hebddynt.



Martyn Phillips
Group Chief Executive,
The Welsh Rugby Union Limited

Strategic Report



THE GROUP'S BUSINESS AND OBJECTIVES

Group activities

The Welsh Rugby Union Limited's ("Company") purpose and principal activity is to promote rugby to encourage more people to engage with the game, more often with more enjoyment and more success. The Company majority owns Millennium Stadium plc ("MS"), Millennium Stadium Experience Limited ("MSEL"), WRU National Centre of Excellence Ltd ("WRUNCE"), WRU Gwent Region Limited (and its subsidiaries), WRU Supporters Club Ltd ("WRUSC"), WRU Properties Limited ("WPL") and Westgate Hotel Cardiff Limited ("WHL"). Collectively, the Company and these subsidiaries are referred to as the Group.

WRU Gwent Region Limited (including its subsidiaries: WRU Gwent Rugby Limited and WRU Gwent Stadium Limited) own and manage the professional rugby team known as the Dragons and the land and other assets at Rodney Parade (collectively, "WRU Gwent").

KEY PERFORMANCE INDICATORS (KPIs)

The KPIs of the Group are:

Participation in rugby

- Participation levels in community rugby; including men's, women's and junior numbers

An analysis of the Group's performance against these measures is shown in the "A year in Community Rugby" section in this Annual Report.

Rugby performance

- Success of the national squads – men and women
- Performance of the four Welsh Regions
- Performance of the Group's age-grade teams

An analysis of the Group's performance against these measures is shown in the "A year in Professional Rugby" section in this Annual Report.

Financial performance

- Generation of sufficient earnings before interest, depreciation, amortisation, allocations and exceptional items ("EBITDA"), over the medium term, to fulfil the Group's principal activity and primary objective
- Number of and attendances at international rugby matches featuring the Welsh team at Principality Stadium
- Provision of consistent and affordable levels of funding to clubs and affiliated organisations to allow them to implement long term plans to fulfil their objectives

An analysis of the Group's performance against these financial measures is shown below.

FINANCIAL STRATEGY

Given the existing net asset base of the Group, the Group's strategy is typically to annually seek to re-invest more into the game rather than retaining any profits to enhance net assets. Furthermore, the Group is prepared to adjust its reinvestment which may create retained profits and/or losses provided there is no material change, in the aggregate, to the net asset base over the medium term.

In accordance with the above, as reported in YE18, the Group retained profits in YE18 in anticipation of the retained loss in YE19 as set out in this Annual Report. Net assets as at 30 June 2019 of £23.4m are not materially different to the net assets amount stated as at 30 June 2017 of £25.3m.

EU REFERENDUM

Following the decision to leave the EU, there has been increased economic uncertainty, exchange rate volatility and an impact on consumer confidence in the UK market. This is likely to continue until EU exit negotiations are complete. These negotiations may result in further changes to regulation and operational frameworks which may impact on the Group's operations. This risk has increased due to the continuing uncertainty as to the operational implications of the decision to leave the EU and the impact on trading performance. Given the ongoing uncertainty, the actual impact on the Group of the UK's decision to leave the EU is unclear. At the present time, the Directors consider the short-term impact on the Group to be not material and have therefore decided to exclude this from current principal risks. The Directors will reassess the risk to the Group once a withdrawal agreement has been finalised.

BANK – REFINANCING

During the year, the Group refinanced its debt requirements to National Westminster Bank PLC from Barclays Bank PLC. This resulted in a revised suite of facilities available to the Group on different commercial terms and subject to differing financial covenants. The Group are pleased to now be working with National Westminster Bank PLC and are grateful to Barclays Bank PLC for the support provided to the Group over the previous 20 years including part-financing the construction of what is now Principality Stadium.



WESTGATE HOTEL

During the year, the Group acquired a building on Westgate Street, Cardiff, with a view to consolidating that with a building already owned by the Group and operating it as a hotel. These buildings were subsequently sold to Legal and General Pensions Limited with a commitment to lease back to the Group. As at the balance sheet date, the expenditure on the property amounted to £16.3m and a related liability was held at £15.0m. It is currently anticipated that the hotel will become operational by early 2021.

PROFESSIONAL RUGBY AGREEMENT

During the year, the Group negotiated a Professional Rugby Agreement ("PRA") with the four Regions which replaced the previous Rugby Services Agreement ("RSA") signed in 2014. This was done ahead of the contractual expiry date of the RSA to avoid unnecessary disruption to the professional game during these times of significant change in the world game. The execution of the PRA resulted in significant increased reinvestment into the four Regions as highlighted elsewhere in this Annual Report.

HEADLINES OF THE FINANCIAL PERFORMANCE – YE19 v YE18

As reported last year, the Group have made a loss in the year and given the financial strategy outlined above, the following demonstrate the resulting outcomes:

	2019 £'m	2018 £'m
Turnover	**90.5**	97.0
Re-investment in the game	**49.6**	42.8
Group share of retained (loss)/ profit for the year	**(4.3)**	2.3
Net bank debt	**9.0**	6.1

DYNAMICS OF THE BUSINESS

The activities, both operational and financial, of each company in the Group are so intrinsically linked that there is little merit in assessing individual performance. Whilst they are all separate legal entities and are obliged to prepare separate financial statements, it is the Group's performance that is the only meaningful measure.

The Group must deliver on its commercial activities to allow re-investment in community rugby, performance rugby and Principality Stadium.

Accordingly, the Group's income generation is paramount to delivering on its principal activity and primary objective. The key economic income driver of the Group's business is the hosting of events at Principality Stadium; particularly, the hosting of international rugby events featuring the Welsh team and especially a winning Welsh team. The more matches that are played, the greater the Group's revenues that are available for re-investment in Welsh rugby. The Group welcomed 393,000 (2018: 482,000) rugby spectators to Principality Stadium for the Under Armour Series and the Guinness Six Nations, analysed as follows:

	2019 No. of home matches	**2019 '000**	2018 No. of home matches	2018 '000
Under Armour Series	**4**	**246**	4	270
Guinness Six Nations	**2**	**147**	3	212
	6	**393**	7	482

The primary reason that the overall attendance decreased in YE19 was due to playing six home fixtures compared to seven in YE18. The average attendance per match was 66,000 (2018: 69,000) and equated to an average of 89% (2018: 93%) when expressed as a measure of capacity attendance.

The average ticket income per attendee at matches held at Principality Stadium in YE19 was £49 (2018: £46).

Within reason, the Group's operational cost base is relatively fixed; albeit there are incremental costs if more Group controlled events are staged. As a consequence, incremental events should mean incremental revenue, costs and ultimately incremental profits which can be re-invested into the game across all levels.



FINANCIAL PERFORMANCE

Overview of performance

The Group generates income from its international matches (including sponsorship and broadcast rights) and incremental revenue from the use of Principality Stadium. This income meets the operating costs of the Group to allow the majority of the surplus to be "invested" in "Welsh rugby", as follows:

	2019 £'m	2018 £'m
Group income	**90.5**	97.0
Less: operational business costs		
• Business and administration	**(7.5)**	(8.6)
• Hospitality and catering costs	**(6.5)**	(9.8)
• Direct costs	**(19.4)**	(21.2)
• Stadia costs	**(7.2)**	(6.2)
Total	**(40.6)**	(45.8)
Surplus	**49.9**	51.2

Group income is analysed as follows:

	2019 £'m	2018 £'m
Match income	**44.9**	44.9
Competition income	**11.9**	11.7
Commercial income	**14.2**	14.2
Hospitality and catering income	**14.0**	18.0
Other event income	**2.4**	4.8
Other income	**3.1**	3.4
Total	**90.5**	97.0

The Group earned some £90.5m (2018: £97.0m) predominantly from international rugby matches staged at Principality Stadium. These matches generated 50% (2018: 46%) of the Group's overall income.

Match income remained constant at £44.9m, with one less home fixture being offset by higher average ticket prices and increased broadcast income.


Commercial income remained constant at £14.2m. Commercial income contributes 16% (2018: 15%) of the Group's overall income.

Hospitality and catering income amounted to £14.0m (2018: £18.0m) with the decrease largely driven by reduced events in Principality Stadium, contributing 15% (2018: 19%) of overall income.

Other event income decreased to £2.4m due to fewer non-Group events at Principality Stadium. Other event income represents events staged at Principality Stadium apart from rugby matches featuring the senior Men's National Squad - including, in the two years indicated above, music concerts, boxing and motorsport.

Competition income represents the income from competitions including the Champions Cup, the Challenge Cup and the Guinness PRO14 (see Note 2 for further details).

The remaining income arises from ancillary activities and various grant sources. During YE19, the Group received £0.9m (2018: £0.9m) of grant funding from Sport Wales.





OPERATIONAL BUSINESS COSTS

The business and administration costs represent the costs of managing the Group; the direct costs represent the costs of staging both international rugby matches and other events held at Principality Stadium and Rodney Parade; the stadia costs represent the costs of managing the stadia other than those directly attributable to events.

The Group's operational business costs have reduced during the year to £40.6m (2018: £45.8m).

Business and administration costs have decreased by 13% to £7.5m due mainly to some one-off costs in YE18 not being repeated in YE19.

Direct costs are costs incurred directly in relation to attaining revenues and will include all National Squad costs and third-party costs incurred in delivering events at Principality Stadium and Rodney Parade. These costs have decreased by £1.8m mainly as a result of:

- a decrease in event costs from hosting fewer events at Principality Stadium
- being offset by an increase in international player costs of £1.4m

The increase in the player costs shown above is driven by an increased bonus payment as a result of achieving the Grand Slam in the Guinness Six Nations 2019 as compared to second in 2018, offset by there being no overseas tour in YE19.

Hospitality and catering costs decreased to £6.5m (2018: £9.8m). The decrease year on year is due to the reduced number of home matches and other events in the year, and is in line with the reduced turnover.

Stadia costs have increased by some £1.0m to £7.2m mainly due to increased utility costs, increased stadia maintenance costs and other inflationary increases.

SURPLUS INVESTED IN RUGBY

The surplus of £49.9m (2018: £51.2m) made by the Group which is invested in "Welsh rugby" can be analysed as follows:

	2019 £'m	2018 £'m
Operational costs		
• Performance rugby	**5.5**	5.5
• Community rugby	**4.9**	4.6
• WRU Gwent – regional rugby	**7.6**	6.0
	18.0	16.1
Allocations to affiliates		
• Regions (professional)	**25.4**	20.5
• Clubs (semi-professional)	**1.7**	1.7
• Community rugby	**4.5**	4.5
	31.6	26.7
Total investment in "Welsh rugby"	**49.6**	42.8
The balance is analysed as follows:		
• Surplus	**49.9**	51.2
• Total investment in "Welsh rugby"	**(49.6)**	(42.8)
	0.3	8.4
Depreciation and amortisation (net of grants)	**3.7**	3.9
Exceptional items (see Note 4)	**0.2**	0.1
Interest costs	**0.6**	0.6
Non-controlling interests	**0.4**	0.4
Tax (credit)/charge	**(0.3)**	1.1
Transferred to reserves	**(4.3)**	2.3
	0.3	8.4



Investment in "Welsh rugby"

The Group's investment in "Welsh rugby" has increased during the year to £49.6m (2018: £42.8m).

The costs in respect of performance rugby have remained constant at £5.5m and include managing the age-grade structures, the national 7s sides, player development, referee costs, National Centre of Excellence and insurance which collectively amount to some 70% (2018: 69%) of the total with the balance of the 30% (2018: 31%) comprising staff costs.

The costs in respect of community rugby have increased by 8% to £4.9m. Community rugby costs include coach development, referee costs, school club hub costs, digital strategy investment and insurance which amount to some 60% (2018: 58%) of the total with the balance of the 40% (2018: 42%) comprising staff costs. The increase in the year is due to the primary schools' initiative, additional spending on School Hub Officers and further investment in women and girls' community programmes.

The allocations to the three Regions not within the Group are £25.4m (2018: £20.5m). The allocations in YE19 are pursuant to the PRA whereas the allocations in YE18 were pursuant to the RSA. Both the PRA and the RSA payments cover all international player release and provide financial support for the four Regions in accordance with the PRA (which was signed in November 2018) and the RSA (which was signed in August 2014).

The allocation to the Group's semi-professional league has remained in line with the prior year at £1.7m.

The allocations to the Group's community clubs have remained at £4.5m. The total investment in the community game is:

	2019 £'m	2018 £'m
Operational costs	**4.9**	4.6
Allocations	**4.5**	4.5
	9.4	9.1

EBITDA and net result

One of the key measures of the Group is the earnings before interest, tax, depreciation, amortisation, exceptional items and allocations to affiliates ("EBITDA"). This is a key measure as it is the best proxy for cash generated from the Group's operational activities. This provides the cash to fund the Group's primary objective.

The Group's EBITDA was £31.9m (2018: £35.1m). The Group's pre-exceptional loss before tax and non-controlling interests was £4.0m (2018: profit of £3.9m); after exceptional items, a loss before tax and non-controlling interests of £4.2m (2018: profit of £3.8m). This can be analysed as follows:

	2019 £'m	2018 £'m
Group EBITDA	**31.9**	35.1
Allocations to affiliated organisations	**(31.6)**	(26.7)
Exceptional items	**(0.2)**	(0.1)
Depreciation and amortisation (net of grant release)	**(3.7)**	(3.9)
Operating (loss)/profit	**(3.6)**	4.4
Net interest	**(0.6)**	(0.6)
(Loss)/profit before tax	**(4.2)**	3.8
Tax	**0.3**	(1.1)
Non-controlling interests	**(0.4)**	(0.4)
Retained (loss)/profit	**(4.3)**	2.3

On a pre-exceptional basis, the Group generated an operating loss of £3.4m (2018: profit of £4.5m) from which net debt service of £0.6m (2018: £0.6m) is deducted resulting in a loss before exceptional items, non-controlling interests and tax of £4.0m (2018: profit £3.9m).

NET INTEREST EXPENSE

The Group's net interest expense is analysed as follows:

	2019 £'m	2018 £'m
Bank interest payable	**0.3**	0.4
Bank charges	**0.3**	0.2
Total	**0.6**	0.6

In addition, the Board is represented on other rugby bodies including World Rugby, Six Nations Rugby Limited, European Pro Club Rugby, British Lions Designated Activity Company and Celtic Rugby Designated Activity Company, some of whom have a policy of financially compensating the representatives serving on these bodies. No Executive Director or member of the Executive Board retains any such compensation from these bodies.

REGISTERED OFFICE

Principality Stadium
Westgate Street
Cardiff
CF10 1NS



Y Bwrdd



Cadeirydd anweithredol

GARETH DAVIES

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2014 a chafodd ei ethol yn Gadeirydd yn yr un flwyddyn. Cafodd ei ailethol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019 a pharhaodd yn Gadeirydd yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Mae hefyd yn Aelod Cenedlaethol o'r Cyngor.

Mae'n aelod o Gyngor a Phwyllgor Gweithredol World Rugby, ac mae'n un o gyfarwyddwyr Rugby World Cup Limited, Six Nations Rugby Limited a British Lions Designated Activity Company.

Mae'n gyn-faswr rhyngwladol a deithiodd gyda'r Llewod yn 1980. Enillodd 21 o gapiau dros ei wlad a bu'n gapten Cymru bum gwaith.

Bu'n uwch-swyddog gweithredol gyda Dreigiau Casnewydd Gwent, CBI Cymru, BBC Cymru, Clwb Rygbi Caerdydd, S4C, Cyngor Chwaraeon Cymru, y Post Brenhinol a Busnes Rhyngwladol Cymru (sef asiantaeth y Llywodraeth a gymerodd le Awdurdod Datblygu Cymru) – lle bu'n arwain y swyddfa yn Sydney, Awstralia. Mae'n gyn-Ddeon Cyfadran Carnegie ym Mhrifysgol Fetropolitan Leeds.



Cyfarwyddwr gweithredol

MARTYN PHILLIPS

Prif Weithredwr y Grŵp

Prif Weithredwr y Grŵp Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015.

Mae'n aelod o Gyngor y Chwe Gwlad ac yn un o gyfarwyddwyr British Lions Designated Activity Company a Celtic Rugby Designated Activity Company.

Arferai fod yn Brif Weithredwr B&Q ac yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Hydrogen Group plc.

Yn 2013 dyfarnwyd Doethuriaeth Anrhydeddus iddo gan Brifysgol Solent Southampton am ei wasanaeth i fyd busnes. Cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Abergwaun ac yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd cyn symud ymlaen i astudio yng Ngholeg Oxford Brookes a Choleg Templeton, Rhydychen.

Tra oedd yn yr ysgol enillodd gapiau rhyngwladol ar lefel y tîm dan 15, ac roedd yn aelod o garfan tîm dan 18 Ysgolion Cymru.



ANTHONY BUCHANAN

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2014 a chafodd ei ailethol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019 yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Mae hefyd yn Aelod Cenedlaethol o'r Cyngor.

Mae'n aelod o Gyngor World Rugby.

Bu'n chwarae i Gymru yn safle'r prop, ac enillodd bump o gapiau gan chwarae ym mhencampwriaeth gyntaf Cwpan Rygbi'r Byd yn 1987. Chwaraeodd dros 230 o weithiau i Glwb Rygbi Llanelli, a daeth yn rheolwr y tîm yn 1991 gan arwain y clwb drwy'r cyfnod o bontio o'r oes amatur i'r oes broffesiynol, a gyfrannodd at ei 30 mlynedd a mwy o wasanaeth i'r clwb.

Ffitiwr glofa ydoedd yn wreiddiol, ond symudodd wedyn i swydd reoli gyda chwmni cemegolion.



GORDON EYNON

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2011 a chafodd ei ailethol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019 yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Mae hefyd yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer Rhanbarth H.

Bu'n chwarae rygbi i dimau hŷn Hendy-gwyn, Gwernyfed, Sir Frycheiniog, Cwins Caerfyrddin a Chrymych.

Bu'n brif hyfforddwr Clwb Rygbi Crymych am dair blynedd cyn dod yn ysgrifennydd y clwb yn 1989. Mae'n cyflawni'r swydd honno hyd heddiw ac mae'n aelod oes o'r clwb erbyn hyn. Bu'n aelod o bwyllgor Rhanbarth H ers 1995 ac roedd yn gadeirydd y rhanbarth rhwng 2009 a 2011. Mae wedi bod yn cynrychioli URC yn Rugby Europe ers 2014, ac mae'n aelod o Gomisiwn Rygbi Saith Bob Ochr y corff hwnnw.

Arferai fod yn bennaeth ysgol, ac ar hyn o bryd mae'n rhedeg fferm yn Sir Benfro.



ROBERT BUTCHER

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015 a chafodd ei ailethol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019 ar ôl cael ei ethol yn Gadeirydd Bwrdd y Gamp Gymunedol yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Mae hefyd yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer Rhanbarth C.

Mae wedi bod yn driw i Glwb Rygbi Bargod gydol ei oes, ers i'w gysylltiad â'r clwb ddechrau pan adawodd yr ysgol ddiwedd yr 1960au, a derbyniodd aelodaeth oes o'r clwb yn ddiweddar. Bu'n gapten y clwb am bum mlynedd yn olynol rhwng canol a diwedd yr 1970au.

Pan ddaeth ei yrfa fel chwaraewr i ben, ymunodd â phwyllgor y clwb. Mae wedi rhoi gwasanaeth di-dor i Glwb Bargod sy'n agos iawn at ei galon, ac yn 2015 cwblhaodd ei 20fed flwyddyn fel ysgrifennydd anrhydeddus y clwb.

Ar ôl gadael y coleg, cafodd swydd athro yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a mwynhaodd yrfa ym maes addysg nes iddo ymddeol yn ddiweddar.



TIM GRIFFIN

A benodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015 a chafodd ei ailbenodi yn 2018..

Erbyn hyn mae Tim yn Rheolwr Gyfarwyddwr DCC Technology, sy'n rhan o DCC sy'n un o gwmnïau'r FTSE 100. Mae'n gyn-Brif Weithredwr Dell UK, a chyn hynny bu'n gweithio yn Singapôr ac Awstralia mewn amrywiaeth o swyddi uwch gyda'r cwmni.

Yn ystod ei yrfa, mae wedi dal swyddi rheoli uwch gyda nifer o gwmnïau mawr sy'n cynnwys PriceWaterhouseCoopers, NCR a'r BBC.

Bu'n astudio yng Ngholeg Prifysgol Cork a Choleg Templeton Rhydychen. Mae ganddo wreiddiau yng Nghymru, ac yn ogystal â chwarae rygbi i Drecelyn bu'n gapten Clwb Rygbi Cross Keys a thîm dan 23 Sir Fynwy. Bu'n chwarae hefyd i Brifysgol Caerdydd, Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Prydain ac roedd yn aelod o dîm y Crawshays a enillodd gystadleuaeth 7 bob ochr Dubai.



CHRIS MORGAN

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2014 a chafodd ei ailethol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019 yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Mae hefyd yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer Rhanbarth D.

Bu'n chwarae rygbi i dimau Glyncorrwg, Ton-mawr a'r Môr-filwyr Brenhinol cyn symud i faes hyfforddi, lle mae ei gefndir yn ymwneud yn bennaf â chryfder a chyflyru. Bu'n gweithio yn y maes hwnnw ar lefel yr Uwch-gynghrair gydag Abertawe ac Aberafan, treuliodd dair blynedd ar lefel ranbarthol gyda charfan hŷn y Gweilch, a chwaraeodd ran bwysig yn nhrefn reoli a hyfforddi Tîm Rygbi Byddar Cymru a enillodd Gwpan y Byd yn Seland Newydd yn 2002.

Bu'n uwch-swyddog heb gomisiwn gyda'r Môr-filwyr Brenhinol am 18 mlynedd, ac mae wedi dal swyddi uchel yn ystod ei yrfa ddisglair.



AILEEN RICHARDS

A benodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol annibynnol

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015 a chafodd ei hailbenodi yn 2018.

Cyn hynny bu'n gweithio yn yr Unol Daleithiau am 7 mlynedd fel Is-lywydd Gweithredol ac fel Is-lywydd â chyfrifoldeb am Bobl a Threfniadaeth i Mars Incorporated.

Cafodd ei magu y tu allan i Gaerdydd, lle dechreuodd ei hoffter o Rygbi Cymru, ac mae ganddi radd BSc Anrhydedd mewn astudiaethau busnes. Treuliodd ei gyrfa, a barodd 30 mlynedd, yn gweithio ar draws strwythur rheoli Mars mewn nifer o swyddi uchel yn y DU, Gwlad Belg a'r Unol Daleithiau.

Mae wedi ymddeol o'i rôl fel Swyddog Gweithredol erbyn hyn, ac mae'n Gyfarwyddwr anweithredol i sawl corff.



PHIL THOMAS

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015 a chafodd ei ailethol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019 yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Mae hefyd yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer Rhanbarth E.

Mae'n dod o Glydach, a chwaraeodd i dîm Ysgolion Cymru dan 16 a thîm ieuenctid Treforys cyn ymuno â Faerdre lle daeth yn ysgrifennydd, yn is-gadeirydd ac yna'n gadeirydd y clwb yn 2012.

Ymddeolodd yn 2018 yn dilyn 40 mlynedd o wasanaeth yn Adran Gyllid Cyngor Dinas a Sir Abertawe.



DAVID YOUNG

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2014 a chafodd ei ailethol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019 yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Mae hefyd yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer Rhanbarth B.

Bu'n chwarae i dîm ieuenctid a thîm hŷn Ystum Taf, ac ar ôl dioddef anaf ymunodd â'r pwyllgor ac mae erbyn hyn yn ysgrifennydd rygbi. Cafodd aelodaeth oes ar ôl 23 o flynyddoedd o wasanaeth. Mae'n ddewiswr, yn is-gadeirydd ac yn ysgrifennydd cystadlaethau Undeb Rygbi Rhanbarth y Dwyrain ar hyn o bryd.

Mae'n beiriannwr trydanol siartredig sydd wedi ymddeol, ac arferai fod yn rheolwr dylunio ac adeiladu i Gyngor Caerdydd.



HYWEL ROBERTS

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2018 a chafodd ei ailethol i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2019 yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Mae hefyd yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer Rhanbarth J.

Cafodd ei fagu yng Ngwynedd a bu'n Gyfarwyddwr Lleol i fanc y NatWest. Mae wedi ymddeol erbyn hyn ond mae ganddo ddiddordeb byw o hyd mewn busnes a phob math o chwaraeon. Mae'n byw yn Llandudno.

Mae ei brofiadau yn ystod ei yrfa yn cynnwys cael ei benodi i Fyrddau amryw gyrff ym myd busnes ac addysg.

Bu'n gadeirydd ac yn is-gadeirydd Rhanbarth J a Chlwb Rygbi'r Trallwng ac mae'n un o sylfaenwyr Cyngor Rygbi Gogledd Cymru/ RGC. Bu'n chwarae rygbi yng nghanolbarth Lloegr a Llundain.



DAVID LOVETT

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Chwefror 2019, ar ôl cael ei benodi'n Gadeirydd y Bwrdd Rygbi Proffesiynol.

Mae'n gyfrifydd siartredig ac arferai fod yn uwch-bartner yng nghwmni Arthur Andersen ac yn is-gadeirydd AlixPartners, sef cwmni rheoli blaenllaw sy'n arbenigo mewn datrys heriau busnes cymhleth a difrifol. Mae wedi ymddeol erbyn hyn ac mae'n gadeirydd ei fusnes teuluol sy'n gweithio ym maes cerddoriaeth a lletygarwch.



Ysgrifennydd y Cwmni

RHODRI LEWIS

A benodwyd ar 1 Awst 2018

Ymunodd â'r Grŵp yn 2010 fel Pennaeth Materion Cyfreithiol a chafodd ei benodi hefyd yn Ysgrifennydd y Cwmni ar 1 Awst 2018. Mae ganddo gyfrifoldeb gweithredol dros swyddogaethau Adnoddau Dynol a Chyflogres y Grŵp ac mae'n Ysgrifennydd Cwmni i nifer o gwmnïau'r Grŵp.

Dechreuodd ar ei yrfa ym maes y gyfraith yn Freshfields Bruckhaus Deringer, sef cwmni rhyngwladol o gyfreithwyr yn Llundain, cyn ymuno â'r adran gyfreithiol fasnachol yn UEFA (corff llywodraethu pêl-droed Ewrop, sydd â'i bencadlys yn y Swistir) lle bu'n gweithio'n bennaf ar faterion yn ymwneud â Chynghrair y Pencampwyr, Cynghrair Europa a Phencampwriaethau Pêl-droed Ewropeaidd UEFA.

Gadawodd UEFA i fod yn Uwch-gyfreithiwr Grŵp y Gymdeithas Bêl-droed, lle'r oedd yn gyfrifol am ystod eang o faterion cyfreithiol yn ymwneud â'r Gymdeithas Bêl-droed (gan gynnwys materion yn ymwneud â Chwpan y Byd FIFA 2010) a Stadiwm Wembley.

Yn 2015, cafodd ei enwi'n Gyfreithiwr Mewnol y Flwyddyn gan y cylchgrawn The Lawyer.

Bu'n chwarae rygbi drwy gydol ei gyfnod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf a bu'n chwarae i dîm Dinas Powys, timau yn Llundain, Gwlad y Thai, Hong Kong, Awstralia a'r Swistir ac i Brifysgol Llundain.

Cyngor Undeb Rygbi Cymru

Cafodd Cyngor URC ei sefydlu ym mis Mawrth 2019, yn dilyn y cyfnod pontio ar gyfer y newidiadau llywodraethu a gymeradwywyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018. Yn unol â'r Erthyglau Cymdeithasu, mae'r Cyngor yn cynnwys 14 Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor a phum Aelod Cenedlaethol o'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol:

(a) pennu'r strategaeth ar gyfer Rygbi Cymunedol yng Nghymru, i'w chymeradwyo gan Fwrdd Cyfarwyddwyr URC; ac

(b) ethol y canlynol o blith aelodau'r Cyngor:

(i) dau Aelod Cenedlaethol o'r Cyngor, i'w penodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr URC;

(ii) pum Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor, i'w penodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr URC; a

(iii) Chadeirydd Is-Fwrdd y Gamp Gymunedol, a fydd hefyd yn cael ei benodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr URC.



ALAN JONES

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2003 fel Cyfarwyddwr Penodedig Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth D ac mae bellach yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer y Rhanbarth hwnnw.

Cafodd ei ethol yn Is-gadeirydd URC yn 2015, a bu'n cyflawni'r swydd honno tan yn gynharach eleni. Mae'n aelod o Bwyllgor Rhanbarth D ers 15 mlynedd.

Mae wedi bod yn driw i Glwb Rygbi Bryn-coch lle bu hefyd yn gapten, a bu'n gadeirydd y clwb am 10 mlynedd. Cafodd aelodaeth oes o'r clwb yn 2009 ac mae'n ysgrifennydd y clwb ers 25 a mwy o flynyddoedd.

Mae ganddo radd anrhydedd mewn Gwyddorau Mathemategol o Brifysgol Birmingham, ac ar ôl graddio daliodd amryw swyddi rheoli a swyddi technegol ym maes TG gyda Nwy Cymru, BP a BT.

Ers ymddeol, mae wedi bod yn gwirfoddoli gyda'r elusen Age Concern drwy helpu pobl hŷn i ddysgu sgiliau TG.



GWYN BOWDEN

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015 fel Cyfarwyddwr Penodedig Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth B ac mae bellach yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer y Rhanbarth hwnnw.

Ar lefel timau ysgol ac ieuenctid, bu'n chwarae i'r Eglwys Newydd cyn ymuno â thîm ieuenctid Ffynnon Taf lle'r aeth ymlaen i chwarae i'r tîm ieuenctid rhanbarthol ac i dîm cyntaf Ffynnon Taf. Yna bu'n ysgrifennydd gemau ac yn gadeirydd y clwb, ac mae bellach yn aelod oes ohono. Bu'n chwarae hefyd i dimau Beddau a Rhiwbeina.

Daeth yn un o ddyfarnwyr URC yn 1980 ac aeth yn ei flaen i ddyfarnu ar lefel uchel cyn ymddeol yn 1999, gan ddod yn gynghorydd/hyfforddwr dyfarnwyr yn ddiweddarach. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu hefyd yn swyddog penodi dyfarnwyr ar gyfer Undeb Rygbi Caerdydd a'r Cylch ac ardal Rhanbarth y Gleision.

Yn fwy diweddar, mae wedi bod yn Gomisiynydd Gwysio mewn gemau yng nghystadlaethau'r PRO14 a Chwpan Ewrop ac mewn gemau rhyngwladol. Mae ganddo gysylltiadau cryf o hyd â Chymdeithas y Dyfarnwyr.

Mae wedi ymddeol erbyn hyn ond arferai fod yn hunangyflogedig ac yn wneuthurwr dodrefn pwrpasol, a bu'n uwch-ymgynghorydd dylunio i gwmni cenedlaethol.



GERAINT EDWARDS

Ymunodd â'r Bwrdd ar 6 Mai 1993 fel Cyfarwyddwr Penodedig Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth E ac mae bellach yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer y Rhanbarth hwnnw.

Mae'n aelod o Glwb Rygbi Dynfant ers mis Medi 1958, fel chwaraewr i ddechrau cyn ymuno â phwyllgor y clwb lle bu'n cyflawni swydd yr ysgrifennydd gemau ar wahanol adegau dros gyfnod o 25 mlynedd a swydd y cadeirydd am 9 mlynedd.

Mae'n aelod o Fwrdd URC ers 26 blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n is-gadeirydd ac yna'n gadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio ac yn gadeirydd Pwyllgor Disgyblu URC am y rhan fwyaf o'r cyfnod. Roedd yn Gomisiynydd Gwysio yn ystod rownd derfynol y gystadleuaeth Cwpan Heineken yng Nghaeredin yn 2009.

Dechreuodd ar ei yrfa drwy gyflawni prentisiaeth bum mlynedd fel gwneuthurwr offer gydag ICI a threuliodd amser yn gweithio i Gwmni Moduron Ford yn Abertawe. Roedd yn aelod o'r Tîm Rheoli Cynhyrchu yn British Leyland yn Llanelli pan ymddeolodd.

Yng Nghinio Blynyddol y Gweilch yn y Gymuned yn 2019, cafodd Wobr Cyflawniad Oes am ei wasanaeth i'r gamp.



BRIAN FOWLER

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2002 fel Cyfarwyddwr Penodedig Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth F ac mae bellach yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer y Rhanbarth hwnnw.

Bu'n chwarae rygbi i Goleg Sant Luc Caerwysg, Llanelli, Rhydaman, Brynaman a Thŷ-croes. Yn ddiweddarach, bu'n ysgrifennydd Clwb Rygbi Rhydaman am 23 o flynyddoedd.

Mae wedi ymddeol erbyn hyn, ond bu'n swyddog llywodraeth leol gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ar ôl gweithio'n flaenorol i'r Bwrdd Glo Cenedlaethol.

Mae'n aelod oes o Glwb Rygbi Rhydaman a chafodd ei ethol i Bwyllgor Rheoli Undeb Rygbi Gorllewin Cymru yn 1995 gan ddod yn is-gadeirydd yn 2000. Cafodd aelodaeth oes o Undeb Rygbi Gorllewin Cymru yn 2016.



BRYN PARKER

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2016 fel Cyfarwyddwr Penodedig Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth A ac mae bellach yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer y Rhanbarth hwnnw.

Yn ystod gyrfa gynhyrchiol fel chwaraewr bu'n chwarae i Flaenafon, Pont-y-pŵl, Tal-y-waun, Garndiffaith a Chroesyceiliog. Mae hefyd wedi bod yn rheoli ac yn hyfforddi Blaenafon, Tal-y-waun, Garndiffaith a Chroesyceiliog.

Roedd yn ysgrifennydd anrhydeddus Clwb Rygbi Cwmbrân o 2006 i 2018 ac mae bellach yn aelod oes o'r clwb ac yn aelod o'r Pwyllgor. Mae'n rheolwr tîm Sir Fynwy ers 2004.

Mae Bryn yn gweithio mewn amryw ysgolion yn cynorthwyo plant o bob oedran a gallu sy'n dangos pob math o ymddygiad. Cyn hynny roedd yn uwch-weithredwr prosesau technegol ac yn swyddog hyfforddiant. Mae hefyd wedi bod yn fentor/cydlynydd plant ar gyfer Plant mewn Angen.

Mae'n gyn-gynghorydd cymuned a chafodd ei benodi'n gadeirydd Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl yn 2016.



IAN JEFFERY

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2015 fel Cyfarwyddwr Penodedig Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth A ac mae bellach yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer y Rhanbarth hwnnw.

Mwynhaodd yrfa flaengar yn y sector adeiladu a'r sector datblygu preifat gan ddal swyddi ar fyrddau tri chwmni adeiladu tai cenedlaethol, gan ymuno â Persimmon & Charles Church Homes yn ddiweddar fel Cyfarwyddwr Masnachol Rhanbarthol.

Dechreuodd chwarae rygbi pan oedd yn 11 oed a dechreuodd ar ei yrfa fel chwaraewr hŷn yng Nghaerwysg, gan symud i gynghreiriau Caerloyw cyn ymuno â Brynbuga yn 2004. Ymddeolodd o'r gamp maes o law yn 2011.

Tra oedd yn chwarae bu hefyd yn gwasanaethu ar bwyllgorau clybiau am 24 o flynyddoedd, gan ymuno â chyfarfodydd Rhanbarth A yn 2010 fel cynrychiolydd Brynbuga.



RAY WILTON

Ymunodd â'r Bwrdd yn 1998 fel Cyfarwyddwr Penodedig Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth C ac mae bellach yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer y Rhanbarth hwnnw.

Mae'n Gomisiynydd Gwysio i lefel gemau prawf.

Mae'n aelod o bwyllgor Clwb Rygbi Tylorstown ers dros 30 mlynedd, a bu'n cynrychioli'r clwb ar Bwyllgor Rhanbarth Canol De Cymru o 1971 ymlaen. Daeth yn gadeirydd dewiswyr Rhanbarth Canol De Cymru.

Bu'n beiriannydd datblygu yn y diwydiant pŵer a bu'n gweithio hefyd i Hoover am dros 30 mlynedd.



CHRIS JONES

Ymunodd â'r Bwrdd yn 2018 fel Cyfarwyddwr Penodedig Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth G ac mae bellach yn Aelod Rhanbarthol o'r Cyngor ar gyfer y Rhanbarth hwnnw.

Roedd yn un o sylfaenwyr Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn ac mae wedi bod yn driw i'r clwb hwnnw gydol ei oes. Bu'n ysgrifennydd y clwb ers ei sefydlu yn 1977. Mae'n aelod oes o'r clwb ac yn gyn-chwaraewr, capten a hyfforddwr.

Mae'n gyn-hyfforddwr tîm rhyngwladol canolradd Ysgolion Cymru (dan 16 oed). Bu hefyd yn gadeirydd y Grŵp Canolradd a'r Cyngor Ysgolion. Bu'n gynrychiolydd yr Ysgolion ar hen bwyllgor URC.

Cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Llandysul a Choleg Loughborough. Bu'n athro Ymarfer Corff am 35 o flynyddoedd tan iddo ymddeol yn 2010.



MARK TAYLOR

Ymunodd Mark Taylor, cyn-ganolwr a chapten Cymru, â'r Bwrdd yn 2018 fel Cyfarwyddwr Penodedig Cenedlaethol ac mae'n Aelod Cenedlaethol o'r Cyngor ar hyn o bryd.

Mae'n gyfrifydd rheoli yn y cwmni cyfrifyddiaeth adnabyddus Bevan & Buckland ac mae'n dod â llwyth o brofiad i'r Cyngor o safbwynt chwarae a rheoli.

Ar ôl gyrfa wych fel chwaraewr, bu'n rheolwr tîm dan 18 Cymru a thîm dan 20 Cymru cyn symud i rôl debyg gyda thîm rhanbarthol y Scarlets.

Bydd campau Taylor fel sgoriwr ceisiau yn rhan o chwedloniaeth rygbi Cymru am byth gan mai ef oedd y chwaraewr cyntaf i sgorio cais yn Stadiwm y Mileniwm (Stadiwm Principality erbyn hyn) a oedd newydd gael ei adeiladu, a hynny yn erbyn De Affrica yn 1999 pan gipiodd gwŷr Graham Henry fuddugoliaeth brin dros y Sbringbocs.

Mae ei hanes fel chwaraewr clwb yr un mor drawiadol. Bu'n chwarae i'w dref enedigol Blaenafon yn ystod ei yrfa fel chwaraewr ieuenctid ac i dimau hŷn Pont-y-pŵl, Abertawe, y Scarlets, Sale a'r Gweilch rhwng 1992 a 2008.



COLIN CHARVIS

Cafodd ei ethol yn Aelod Cenedlaethol o'r Cyngor ym mis Mai 2019.

Erbyn hyn mae'n rhedeg ei fusnes ei hun ac mae'n is-gadeirydd ac yn aelod o Fwrdd Clwb Rygbi Abertawe. Mae'n Llysgennad i'r elusen blant Sparks; i'r ymgyrch Show Racism the Red Card; i'r Gymdeithas Sglerosis Ymledol ac i Sefydliad JAG. Bu'n Llysgennad i Shelter Cymru cyn hynny.

Mae'n gyn-gapten Cymru ac enillodd ei gap cyntaf yn 1996. Cynrychiolodd y Llewod hefyd yn 2001.



JON MORGAN OBE

Cafodd ei ethol yn Aelod Cenedlaethol o'r Cyngor ym mis Mai 2019.

Mae'n weithiwr proffesiynol sydd â bron 35 mlynedd o brofiad ym maes chwaraeon a hamdden. Yn ystod ei yrfa cyflawnodd nifer o uwch-swyddi arwain mewn awdurdodau lleol, asiantaethau chwaraeon cenedlaethol a chyrff llywodraethu chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol.

Yn 2017, rhoddodd y gorau i'w rôl fel Prif Weithredwr Chwaraeon Anabledd Cymru, a oedd yn swydd y bu ynddi ers 2002. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yn gyfrifol am arwain datblygiad strategol chwaraeon anabledd a chwaraeon cynhwysol, gan roi cyngor i Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac amryw randdeiliaid ynghylch cyfeiriad o ran polisi ac ynghylch gweithredu rhaglenni. Caiff Chwaraeon Anabledd Cymru ei ystyried yn sefydliad sy'n arwain y byd o safbwynt datblygu chwaraeon anabledd.

Rhoddwyd OBE iddo yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2017 am ei wasanaeth i Chwaraeon Anabledd yng Nghymru.

Fel y nodwyd yn yr adran am y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, mae Gareth Davies ac Anthony Buchanan yn Aelodau Cenedlaethol o'r Cyngor ac mae Rob Butcher, Dave Young, Chris Morgan, Phil Thomas, Gordon Eynon a Hywel Roberts yn Aelodau Rhanbarthol o'r Cyngor.




WRU



Y Bwrdd Gweithredol



MARTYN PHILLIPS

Prif Weithredwr y Grŵp

Gweler y bywgraffiad yn yr adran 'Bwrdd Cyfarwyddwyr' ar dudalen 87 yr Adroddiad Blynyddol hwn.



GERAINT JOHN

Cyfarwyddwr y Gamp Gymunedol

Ymunodd â'r Grŵp yn 2015 a chafodd ei benodi'n Bennaeth Perfformiad Rygbi yn 2016. Ym mis Ionawr 2019 cafodd ei benodi i rôl Cyfarwyddwr y Gamp Gymunedol.

Dychwelodd i Gymru ym mis Medi 2015 fel Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr Elît y Grŵp. Cyn hynny, roedd wedi treulio 10 mlynedd yn gweithio dramor – gyda Rygbi Canada fel Rheolwr Perfformiad Uwch ac yna fel Prif Hyfforddwr y Tîm Saith Bob Ochr, cyn ymuno ag Undeb Rygbi Awstralia fel Cyfarwyddwr y Rhaglen Rygbi Saith Bob Ochr a Phrif Hyfforddwr Tîm Saith Bob Ochr y Dynion ym mis Mehefin 2014.

Mae'n gyn-hyfforddwr cynorthwyol Cymru a bu'n hyfforddi hefyd yn Llanelli, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Gleision Caerdydd.

Bu'n chwarae i Gaerdydd a Llanelli, bu'n cynrychioli Cymru ar bob lefel ar gyfer ysgolion ac aeth yn ei flaen i chwarae i Dîm A Cymru.



RYAN JONES

Cyfarwyddwr Perfformiad

Ymunodd â'r Grŵp yn 2016 fel Pennaeth Cyfranogiad Rygbi a chafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Perfformiad yn 2019.

Enillodd 75 o gapiau dros Gymru, bu'n gapten Cymru a bu'n chwarae i'r Llewod hefyd. Mae'n un o'r ychydig rai sydd wedi llwyddo i gipio'r Gamp Lawn dair gwaith wrth chwarae i Gymru (yn 2005, 2008 a 2012) a chwaraeodd ran allweddol hefyd pan lwyddodd chwaraewyr Cymru i ddal eu gafael ar dlws Pencampwriaeth y 6 Gwlad RBS yn 2013.

Bu'n gapten y Gweilch rhwng 2007 a 2010 ac mae ei lwyddiannau'n cynnwys ennill cystadleuaeth y Pro12 bedair gwaith.



MARK KILLINGLEY

Pennaeth Marchnata Digidol a Chyfathrebu

Ymunodd â'r Grŵp yn 2016.

Ymunodd â'r Bwrdd Gweithredol ar ôl bod yn gweithio i Undeb Rygbi Lloegr lle'r oedd yn Bennaeth Rheoli Cysylltiadau Digidol a Chysylltiadau â Chwsmeriaid. Yn y swydd honno, bu'n goruchwylio'r gwaith o lansio gwefan Rygbi Lloegr ar ei newydd wedd yn ogystal â phlatfform digidol newydd i hybu cyfranogiad yn y gamp ar draws Lloegr cyn, yn ystod ac ar ôl Cwpan Rygbi'r Byd 2015.

Cyn ymuno ag Undeb Rygbi Lloegr, roedd yn Gyfarwyddwr Marchnata'r Gynghrair Bêl-droed Americanaidd Genedlaethol ("NFL"). Yno, roedd yn gyfrifol am bob gweithgarwch digidol a gweithgarwch marchnata a digwyddiadau arobryn a helpodd i sefydlu'r NFL yn y DU i'r fath raddau nes bod y timau'n chwarae llawer o gemau ac yn mwynhau cynulleidfaoedd teledu na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Bu'n chwarae rygbi i Glwb Amersham a Chiltern, Prifysgol Leeds a Swydd Buckingham.



RHODRI LEWIS

Cwnsler Cyffredinol y Grŵp ac Ysgrifennydd y Cwmni

Gweler y bywgraffiad yn yr adran 'Bwrdd Cyfarwyddwyr' ar dudalen 91 yr Adroddiad Blynyddol hwn.



CRAIG MAXWELL

Pennaeth Gwerthu a Marchnata'r Grŵp

Ymunodd â'r Grŵp yn 2010.

Ymunodd â'r Grŵp ar ôl bod gydag Under Armour lle'r oedd wedi bod yn gweithio ers 2008 fel Pennaeth Marchnata Chwaraeon yn y DU ac Iwerddon ar gyfer y cwmni dillad chwaraeon sydd â'i bencadlys yn yr Unol Daleithiau. Tra oedd gydag Under Armour, bu'n gweithio ar ymgyrch lansio esgidiau'r brand a chwaraeodd ran allweddol yn y gwaith o ymestyn brand Under Armour ar draws pob camp yn y DU ac Iwerddon.

Roedd wedi bod yn gweithio i'r Grŵp o'r blaen rhwng 2004 a 2008 mewn amryw swyddi yn y tîm lletygarwch, cyn cael ei benodi'n Rheolwr Nawdd y Grŵp.

Mae Craig hefyd yn un o gyfarwyddwyr Clwb Cefnogwyr Undeb Rygbi Cymru Cyf ac un arall o gwmnïau'r Grŵp, sef "Profiad Principality Stadium" sy'n hynod o lwyddiannus ac sy'n rheoli'r holl drefniadau lletygarwch, cynadledda ac arlwyo ar ran Stadiwm Principality. Mae'n aelod hefyd o bwyllgorau masnachol y PRO14 a Six Nations Limited.

Yn frodor o Sir Benfro, magwyd Craig yn Cosheston a mynychodd Ysgol Greenhill yn Ninbych-y-pysgod. Bu'n chwarae rygbi, criced a phêl-droed yn lleol, gan gynrychioli'r sir a Dyfed yn y tair camp, a bu'n chwarae pêl-fasged dros Gymru dan 18 oed.



JULIE PATERSON
Pennaeth Gweithrediadau

Ymunodd â'r Grŵp yn 1989 a chafodd ei phenodi i'r Bwrdd Gweithredol yn 2006.

Cyn hynny bu'n gweithio mewn nifer o feysydd ar draws y busnes lle bu'n ymdrin yn uniongyrchol â materion strategol a gweithredol a oedd yn ymwneud â rheoli rygbi ar lefel ryngwladol a rhanbarthol ac ar lefel clybiau. Roedd yn Bennaeth Cydymffurfio'r Grŵp ers 2005, ac yna symudodd i swydd y Pennaeth Gweithrediadau Rygbi cyn cael ei phenodi'n fwy diweddar yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau.

Mae'n gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Cytundeb Rygbi Proffesiynol ac mae'n cadeirio'r Bwrdd Rheoli Rygbi yng Nghymru. Mae ei chylch gwaith hefyd yn cynnwys yr holl faterion rheoleiddiol a meddygol a'r holl faterion sy'n ymwneud ag yswiriant ac integriti ar draws y gamp yng Nghymru. Mae Julie hefyd yn gyfrifol am gysylltu â chyrff eraill sy'n llywodraethu rygbi ac am gysylltu â rhanddeiliaid, partneriaid neu gyrff cyswllt eraill megis Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac awdurdodau lleol. Mae hefyd yn cynrychioli Rygbi Cymru ar Gyngor World Rugby, Bwrdd Rygbi Clybiau Proffesiynol Ewrop (EPCR), Bwrdd y Pro 14 a Bwrdd Prydain Fawr ar gyfer rygbi 7 bob ochr y Gemau Olympaidd.



STEVE PHILLIPS
Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp

Ymunodd â'r Grŵp yn 2007.

Ymunodd â'r Grŵp ar ôl bod yn gweithio i TBI, sef un o berchnogion meysydd awyr rhanbarthol mwyaf y byd. Yn ystod ei ddeng mlynedd gyda'r cwmni hwnnw, chwaraeodd ran weithredol yn y gwaith o gaffael meysydd awyr yn Belfast, Sweden, Luton Llundain, Bolifia, Costa Rica, Awstralia a Gogledd America.

Cafodd ei hyfforddi tra oedd gyda KPMG a chymhwysodd yn gyfrifydd siartredig yn 1989. Bu'n Gyfarwyddwr Cyllid gyda Grŵp Tedcastle UK cyn ymuno â TBI fel Rheolwr Ariannol y Grŵp ac yna fel Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp.

Mae'n un o gyfarwyddwyr anweithredol Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau.

Bu'n chwarae rygbi i Ysgol Gyfun Dyffryn Aman, Coleg Imperial Llundain, Prifysgol Llundain a Chlwb Rygbi'r Aman lle bu'n gapten y tîm cyntaf.



MARK WILLIAMS
Rheolwr y Stadiwm

Ymunodd â'r Grŵp yn 2013.

Ymunodd â'r Grŵp yn dilyn gyrfa filwrol dros gyfnod o 20 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafodd ei ddyrchafu'n Lefftenant-cyrnol gyda'r Cymry Brenhinol. Bu'n gwasanaethu droeon yng Ngogledd Iwerddon, Bosnia, Kosovo ac Irac a chafodd ei arwisgo am ei weithredoedd wrth frwydro yn Irac yn 2007.

Yn ystod ei yrfa filwrol, daliodd swyddi milwrol uchel mewn amgylcheddau hyfforddi a rhyfela, a oedd yn cynnwys cyfnodau'n gweithio fel Dirprwy Brif Swyddog Bataliwn, Cadlywydd Cwmni a Phennaeth Staff Uned Frwydro gydag 2il Fataliwn y Cymry Brenhinol.

Bu'n chwarae rygbi i Goleg Castell-nedd, Glyn-nedd a'i Gatrawd

.

Teyrngedau

KEN BRADDOCK
(1938-2018)

Bu farw Ken Braddock ar 20 Awst 2018, wyth diwrnod cyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed. Fe oedd y pedwerydd o'r 10 chwaraewr o Drecelyn i ennill cap rhyngwladol yn hanes y clwb dros gyfnod o 130 mlynedd.

Roedd yn flaenwr ffyrnig yn y rheng ôl, ac enillodd ei gap cyntaf o dri dros Gymru mewn gêm yn erbyn y Walabïaid yng Nghaerdydd yn 1966. Enillodd Barry John, Gerald Davies a Delme Thomas eu capiau cyntaf yn y gêm honno hefyd.

Aeth yn ei flaen i chwarae yn nwy gêm agoriadol Pencampwriaeth y Pum Gwlad yn 1967, ond ni chafodd ei ddewis ar gyfer y gêm nesaf, sef taith i Baris i herio Ffrainc. Collodd Cymru bob un o'r tair gêm y chwaraeodd Ken ynddynt – yn erbyn Awstralia (14-11), yn erbyn yr Alban (11-5) ac yn erbyn Iwerddon (3-0).

Cafodd ei eni yn Nhreowen, ar gyrion Trecelyn, ar 28 Awst 1938 ac aeth i Ysgol Uwchradd Fodern Greenfield gan chwarae i dîm Trinant cyn ymuno â Threcelyn. Roedd yn aelod allweddol o'r tîm a enillodd Bencampwriaeth y Western Mail yn ystod tymor 1964/65.

FRANCES MARGERISON
(1964-2019)

Bu farw Frances yn 54 oed ym mis Ionawr 2019, ac roedd yn un o'r ffigyrau mwyaf dylanwadol yn ystod dyddiau cynnar rygbi menywod yng Nghymru. Yn ogystal ag ennill capiau rhyngwladol dros Gymru a Phrydain ar y cae, hi oedd cadeirydd cyntaf Undeb Rygbi Menywod Cymru oddi arno.

Cafodd ei geni yng Nghasnewydd yn 1964. Roedd yn chwarae rygbi i Bont-y-pŵl pan gafodd ei dewis ar gyfer gêm ryngwladol gyntaf erioed Cymru yn erbyn Lloegr ym Mharc Pont-y-pŵl ar 5 Ebrill 1987. Enillodd Lloegr y gêm honno o 22-4, ond bedair blynedd yn ddiweddarach cafodd y twrnamaint Cwpan y Byd cyntaf erioed i fenywod ei gynnal yng Nghymru.

Roedd Margerison yn Bennaeth y Chweched yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban ym Mhont-y-pŵl, ac roedd yn aelod o'r grŵp trefnu lleol ar gyfer y twrnamaint arloesol hwnnw lle bu'n cydweithio yn agos â Deborah Griffin, Sue Dorrington, Alice Cooper a Mary Forsyth o Loegr i sicrhau bod y digwyddiad ar gyfer 12 o wledydd yn llwyddiant.

Ar ôl chwarae ei gêm gyntaf dros Gymru yn 1987, parhaodd i chwarae dros Gymru tan 1993 gan ennill dwsin o gapiau. Methodd â chwarae yng Nghwpan y Byd 1991 oherwydd salwch. Yn ogystal â chwarae yng ngêm ryngwladol gyntaf tîm menywod Cymru, chwaraeodd hefyd yn erbyn Lloegr yn 1992 yng ngêm ryngwladol gyntaf y tîm menywod ar y maes rhyngwladol, sef Parc yr Arfau, ar 8 Chwefror 1992.

Pan gafodd Undeb Rygbi Menywod Cymru ei ffurfio yn 1994, Margerison oedd ei gadeirydd cyntaf, a'r flwyddyn ganlynol cafodd cystadleuaeth ei lansio ar gyfer timau menywod gwledydd y DU.

GARFIELD OWEN
(1932-2019)

Enillodd Garfield Owen gapiau dros Gymru ym maes rygbi'r undeb a rygbi'r gynghrair, chwaraeodd griced dros Ysgolion Cymru ac roedd hefyd yn bencampwr Cymru ym maes athletau. Cafodd ei eni yn Llanharan a bu farw yn 86 oed ym mis Ionawr 2019. Dysgodd chwarae rygbi yn Ysgol Ramadeg y Bont-faen lle'r oedd Idwal Rees, cyn-ganolwr Cymru, yn bennaeth. Aeth yn ei flaen i ennill chwe chap dros Gymru tra oedd yn chwarae i Gasnewydd, cyn penderfynu mynd i chwarae rygbi'r gynghrair gyda Halifax ar 17 Hydref 1956. Cafodd y trosglwyddiad ei ddarlledu'n fyw ar deledu'r BBC a chafodd tua £5,000 o dâl.

Roedd yn hwyrach na'r disgwyl yn ennill ei gap gyntaf dros Gymru, oherwydd damwain anarferol a wnaeth ei orfodi i ildio ei le yn y tîm a fyddai'n herio Lloegr yn 1955. Yn ystod sesiwn hyfforddi ar gae Crwydriaid Morgannwg yn Nhrelái ddiwrnod cyn y gêm yng Nghaerdydd ar 22 Ionawr, aeth i ganol drysi i chwilio am bêl, taro yn erbyn coeden ac agor ei ben-glin mor wael nes iddo ddod yn ôl i'r cae yn waed i gyd.

Cymerodd Alan Edwards, y cefnwr o Lynebwy, le Owen a oedd yn 22 oed, a daeth yn arwr dros nos ar ôl sgorio'r unig bwyntiau mewn buddugoliaeth o 3-0 yn erbyn Lloegr yng Nghaerdydd. Cafodd Edwards gadw ei le ar gyfer y gêm a gollodd Cymru o 14-8 yn erbyn yr Alban, ond llwyddodd Owen i ennill ei gap cyntaf o'r diwedd wedyn yn nhrydedd rownd Pencampwriaeth y Pum Gwlad yn y flwyddyn honno.

Derbyniodd gynnig i ymuno â Halifax, ond dim ond ar ôl iddo ffonio'r clwb i gadarnhau bod ganddynt ddiddordeb ynddo. Yn ôl yr hanes, cafodd ei drosglwyddiad i rygbi'r gynghrair ei ragflaenu gan adroddiad damcaniaethol yn y Daily Herald dan y pennawd 'Halifax offer Owen £5,000'. Doedd y cefnwr yn gwybod dim am y peth, ac roedd yn newyddion hefyd i'r clwb.

Ond dechreuodd Owen a Halifax ystyried y posibilrwydd o symud o rygbi'r undeb i rygbi'r gynghrair, cafodd cytundeb ei lunio a llofnododd Owen ef yn fyw ar 'Sportsview'. Roedd yn stori newyddion enfawr am chwaraewr arall o fri yr oedd rygbi'r gynghrair wedi'i fachu o Gymru.

Aeth yn ei flaen i chwarae dros dîm XIII Rygbi'r Gynghrair yn erbyn Ffrainc a thros dîm XIII Cymru yn erbyn Ffrainc ar Ddydd gŵyl Dewi 1959 yn Toulouse. Fe oedd capten Halifax yn ystod 1958-59 a thorrodd record y clwb gyda chymorth Cymro arall, Tuss Griffiths, drwy sgorio 150 o goliau yn ystod y tymor wedyn. Erbyn diwedd ei yrfa, roedd wedi sgorio 890 o goliau a 1,801 o bwyntiau yn ystod ei yrfa gyda Halifax (5 tymor) ac yna Keighley (4 tymor).

BILLY MAINWARING
(1941-2019)

Collodd Billy Mainwaring ei frwydr hir yn erbyn salwch ym mis Ebrill 2019 a bu farw yn 78 oed. Roedd yn un o weision mwyaf ffyddlon Clwb Rygbi Aberafan. Enillodd chwe chap dros Gymru yn yr ail reng, a châi ei addoli ar Faes Talbot Athletic am ei chwarae garw ar y cae a'i ymrwymiad diysgog i'r Dewiniaid oddi arno. Bu'n ffyddlon i'w glwb ar hyd ei yrfa a chwaraeodd dros 700 o gemau dros gyfnod o 18 tymor.

Cafodd ei eni ar 24 Ionawr 1941 ym Mhort Talbot. Roedd Billy yn weithiwr dur a ddysgodd chwarae rygbi yn Ysgol Ddwyreiniol Tai-bach ac yna yng Nghlwb Rygbi Tai-bach. Aeth yn ei flaen i fod yn un o ddwy bartneriaeth wych yn yr ail reng yn Aberafan, gyda Max Wiltshire i ddechrau ac Allan Martin wedyn.

Roedd ganddo bartneriaeth arbennig hefyd â'i fam, Evelyn, a oedd bob amser yn llwyddo i godi gwên ar feysydd rygbi ledled Cymru a Lloegr. Tra oedd Billy yn trechu'r chwaraewyr ar y cae, byddai Mrs Mainwaring yn gweiddi ar bawb a feiddiai fygwth ei mab annwyl neu unrhyw un o chwaraewyr eraill Aberafan.

Chwaraeodd Billy am y tro cyntaf dros Gymru yn Murrayfield yn 1967 pan gollodd Cymru o 11-5 yn erbyn yr Albanwyr. Roedd Pencampwriaeth y Pum Gwlad y flwyddyn honno'n un anodd i Gymru, a'r unig fuddugoliaeth y cafodd Billy ei mwynhau oedd yr un o 34-21 yn erbyn Lloegr yng 'Ngêm Jarrett'.

Chwaraeodd hefyd yn erbyn y Crysau Duon pan oeddent ar daith yn 1967, a chwaraeodd ei gêm olaf dros Gymru yn y gêm gyfartal 11-11 yn erbyn Lloegr yn Twickenham yn 1968.

HAYDN MAINWARING
(1933-2018)

Bu farw Haydn Mainwaring ar 12 Medi 2018 yn 85 oed. Bu'n chwarae fel canolwr i Gymru a daeth yn enwog am ei ddwy dacl wych dros y Barbariaid yn eu buddugoliaeth dros y Sbringbocs diguro yng Nghaerdydd yn 1961.

Daeth Haydn i'r cae yn hwyr yn erbyn De Affrica yn 1981, i safle'r cefnwr yn lle Terry Davies, ac arbedodd y chwaraewr di-gap o Abertawe ddau gais â'i hyrddiadau ysgwydd nodweddiadol a lwyddodd i rwystro capten De Affrica, Avril Malan, ac yna'r asgellwr Michael Antelme.

Wrth ddisgrifio ei wrthdaro â Malan, nododd papurau newydd y cyfnod fod Malan fel comed yn diflannu i'r ddaear ac fel ych yn disgyn i'r llawr.

Roedd y perfformiad trawiadol yn y fuddugoliaeth o 6-0 yn erbyn y Sbringbocs ym Mharc yr Arfau ar 4 Chwefror 1961 yn ddigon iddo ennill cap dros Gymru yn erbyn Ffrainc yn Stade Colombes fis yn ddiweddarach. Roedd yn un o dri a enillodd eu capiau cyntaf yn y tîm hwnnw a deithiodd i brifddinas Ffrainc ar 25 Mawrth – y blaenasgellwr Alun Pask a'r bachwr Billy Thomas oedd y ddau arall. Yno, ymunodd Haydn â Meirion Roberts yng nghanol y cae i herio'r chwaraewr o fri Guy Boniface.

Collodd Cymru o 8-6 yn y gêm honno, a dyna oedd diwedd ei yrfa fer ar y llwyfan rhyngwladol. Cafodd ei eni yn Abertawe a dysgodd chwarae rygbi yn Ysgol yr Esgob Gore. Chwaraeodd i dîm dan 15 Cymru yn 1947 ac 1948 ac i dîm Ysgolion Uwchradd Cymru yn erbyn Ffrainc a Lloegr yn 1951 ac yn erbyn Swydd Efrog a Lloegr yn 1952. Ymunodd â'r Llynges a daeth yn Fôr-filwr Brenhinol.

SAM SIMON
(1935-2019)

Bu farw Sam Simon yn 84 oed ym mis Mai 2019. Roedd yn un o gewri'r gyfraith yng Nghaerdydd ac yn un o hoelion wyth Clwb Rygbi Pontypridd, ac roedd hefyd yn aelod o bwyllgor cyffredinol Undeb Rygbi Cymru a'r Bwrdd Rygbi Rhyngwladol.

Roedd yn gyn-lywydd Cymdeithas Cyfreithwyr Caerdydd ac yn gyn-ymddiriedolwyr i Goleg Llanymddyfri lle bu'n ddisgybl rhwng 1948 a 1954. Roedd yn aelod o Gerddorfa Ieuenctid Cymru rhwng 1952 a 1954. Fel chwaraewr rygbi bu'n chwarae yn safle'r prop pen tynn i Bontypridd, Crwydriaid Morgannwg a Chlwb Rygbi Crawshay.

Ymunodd ag Undeb Rygbi Cymru fel Cynrychiolydd Cenedlaethol a threuliodd ddegawd ar y pwyllgor cyffredinol. Cafodd ei ddewis i gynrychioli Cymru ar y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol a bu'n llywydd Clwb Rygbi Pontypridd am 30 mlynedd.

Bu'n cadeirio Pwyllgor Dan 21 Undeb Rygbi Cymru, a oedd â chyfrifoldeb allweddol am ddatblygu'r gamp ar gyfer ieuenctid, a bu'n rheoli tîm Cymru yn ystod y daith i Japan yn 2001.

TO DO

COMMERCIAL PARTNERS

Principle Partners

Principality Building Society Cymdeithas Adeiladu

UNDER ARMOUR

ISUZU

Admiral

Official Partners

HEINEKEN

SP ENERGY NETWORKS

EST 1882 BRAINS

Specsavers

Dove MEN +CARE

GUINNESS

THE INDIGO GROUP

Official Broadcast Partners

S4C

BBC SPORT

BBC cymru wales

4

Official Suppliers

Gullivers sports travel

EST 1898 T·M·LEWIN LONDON

ticketmaster

PB PERFORM BETTER

ace feet in motion

PES

Princes Gate

GILBERT

RHINO

SINCLAIR

sportseen

Fanatics

BRITVIC soft drinks

PETER'S Lovingly baked

Mom's

HOPKINS

EVENTSINTERNATIONAL VIP HOSPITALITY


macron
RMR
macron



The Welsh Rugby Union Limited

Principality Stadium, Westgate Street, Cardiff CF10 1NS
Tel: 08442 491 999 Fax: 029 2082 2474
E-Mail: info@wru.wales Web:wru.wales

TO DO